Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Penweddig
Ffordd Llanbadarn
Llangawsai
Aberystwyth
SY23 3QN

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol ddynodedig ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion yw Ysgol Gyfun Penweddig. Lleolir yr ysgol mewn adeilad newydd (a agorwyd yn Ionawr 2001) ar safle yn Llangawsai, ger Llanbadarn Fawr, Aberystwyth.

Mae ynddi 582 o ddisgyblion 11-18 oed ac mae 117 ohonynt yn fyfyrwyr 16-18 oed.

Mae amrywiaeth yng nghefndir economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol y disgyblion. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys tref Aberystwyth ac ardal wledig eang y tu hwnt i'r dref. Mae gan 3.4% o'r disgyblion hawl i ginio am ddim eleni, sy'n sylweddol is na'r canran cenedlaethol o 17.4%. Mae'r holl ddisgyblion yn medru siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf wedi derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg tra bod y gweddill wedi derbyn addysg ddwyieithog. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae bron pob disgybl a myfyriwr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae 73% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Un disgybl sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 3% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol 2.6%. Yn ogystal, mae 131 o ddisgyblion (tua 21%) ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol. Dadgymhwyswyd pedwar disgybl o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae aelodaeth yr uwch dîm arwain wedi newid yn gyfan gwbl ers yr arolygiad diwethaf. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn amser llawn yn Ionawr 2010. Penodwyd y ddau ddirprwy bennaeth i'w swyddi yn 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Penweddig yw £5,033, sy'n cymharu gyda'r uchafswm o £6,115 ac isafswm o £4,462 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Ngheredigion. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl pedwerydd uchaf o'r saith ysgol uwchradd yng Ngheredigion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae cyrhaeddiad disgyblion yn dda iawn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- mae amrediad eang o weithgareddau ar gael yn yr ysgol;
- mae presenoldeb disgyblion wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf; ac
- mae'r ysgol wedi ehangu'r cwricwlwm er mwyn cynnig amrediad o gyrsiau sy'n apelio'n fwy at y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae patrwm o welliant yng nghyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion;
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o ddata er mwyn arfarnu perfformiad; ac
- mae'r ysgol wedi cymryd camau buddiol i leihau'r ddyled yng nghyllideb yr ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella;
- ychydig iawn o dystiolaeth uniongyrchol, megis arsylwadau gwersi a chraffu ar waith, sy'n bwydo prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant;
- nid yw'r ysgol yn cwrdd â gofynion statudol rheoli perfformiad ac nid oes gan bob aelod o staff dargedau unigol; ac
- nid oes digon o gynnydd ers yr arolygiad diwethaf mewn meysydd pwysig, megis cysoni ansawdd yr asesu a'r addysgu.

## Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Penweddig:

A1 wella cynnydd a chyflawniad bechgyn a disgyblion gallu uwch;

A2 sicrhau bod yr ysgol yn cyd-fynd â'r gofynion statudol reoli perfformiad, cyd-addoli a chynnwys yr adroddiad blynyddol i rieni;

A3 gwella a sicrhau cysondeb ansawdd yr addysgu a rannu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol;

A4 cryfhau a sicrhau cysondeb gwaith marcio athrawon a datblygu sustem ysgol gyfan i olrhain cynnydd disgyblion;

A5 gwella ansawdd a chywirdeb prosesau monitro, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant er mwyn sicrhau ffocws cryfach ar y cynnydd mae disgyblion yn gwneud yn ystod gwersi; a

A6 chryfhau llais y disgybl trwy'r cyngor ysgol a fforymau eraill.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 dros y pedair blynedd diwethaf wedi gwella ac mae nawr yn well na pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y pynciau craidd yn dda. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y lefelau uchaf yn amrywiol ac yn cymharu'n llai ffafriol gydag ysgolion tebyg. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd digonol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ar draws y rhan fwyaf o ddangosyddion, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn dda iawn. Mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4.

Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn perfformio'n dda ac yn 2010, enillodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae ychydig o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched. Mae'r gwahaniaeth hwn yn fwy yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, felly nid yw'n bosibl adnabod tueddiadau a phatrymau ym mherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt mewn gwersi blaenorol, ac yn datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth newydd yn effeithiol. Mae disgyblion yn dangos cymhelliant ac yn ymateb yn frwdfrydig i dasgau priodol. Mewn lleiafrif o wersi lle nad oes yna ddigon o her, mae cynnydd y disgyblion yn annigonol. Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig disgyblion gallu uchel, yn datblygu eu medrau'n ddigonol er mwyn cyrraedd eu llawn potensial.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg ac mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol trwy'r cynllun darllen Cymraeg yn gwneud cynnydd da iawn. Mae disgyblion yn ysgrifennu i ystod o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ac yn gwneud defnydd da o eirfa bynciol. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion. Mae gan leiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fylchau yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus.

Mae medrau gwrando disgyblion yn dda iawn ac maent yn gweithio'n fedrus mewn parau a grwpiau bach ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus wrth fynegi barn ac yn siarad yn glir. Mae bron pob disgybl

yn y chweched dosbarth wedi ennill achrediad yn y sgiliau hanfodol a sgiliau allweddol ar lefel 2 a lefel 3 fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hybu ffitrwydd, megis badminton a syrffio, ac mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu dysgu'n effeithiol am fywyd a bwyta'n iach.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ond yn 2010 roedd yr ysgol dal ymysg y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae data'r ysgol, heb ei wirio, yn dangos gwelliant sylweddol ym mhresenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi ac ar safle'r ysgol yn dda iawn. Mae bron pob un yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymgartrefu'n gyflym i weithio. Dangosant barch a chwrteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio'n frwdfrydig mewn gwersi.

Mae rôl y cyngor ysgol wedi datblygu'n ddigonol. Maent wedi dylanwadau'n briodol ar ychydig o weithgareddau'r ysgol, wedi cael mewnbwn i benodi aelodau'r uwch dîm arwain ac wedi gweithio'n frwd iawn er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn y ffreutur. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol, a llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, yn teimlo nad yw'r ysgol bob amser yn gwrando ac yn gweithredu ar eu sylwadau.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at waith elusennol ac mae aelodau'r chweched dosbarth yn gweithio'n agos â'r gymuned leol fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n cwrdd â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Yn ddiweddar, mae'r cwricwlwm wedi cael ei ail strwythuro er mwyn hyrwyddo gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn fwy effeithiol wrth iddynt ddatblygu trwy'r ysgol. Ehangwyd y dewis o gyrsiau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth trwy weithio mewn partneriaeth gyda dwy ysgol arall, darparwyr allanol a choleg cyfagos. Mae hyn wedi sicrhau dewis mwy eang ac addas i ddysgwyr unigol. Mae'r ysgol hefyd yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch yn llwyddiannus i holl ddisgyblion y chweched dosbarth.

Cynigir amrywiaeth eang o brofiadau allgyrsiol gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau cerddorol, a grwpiau diwylliannol megis grŵp cynganeddu.
Ers Medi 2010, mae gwersi penodol er mwyn hybu sgiliau a datblygu rhifedd a

llythrennedd y disgyblion, yn Gymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 3 a gwella dysgu a pherfformiad a datrys problemau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r strategaeth hon yn newydd ac mae'r ysgol eto i weld ei lawn ffrwyth ond mae'r argoelion cynnar yn addawol. Cyflwynir cyfleoedd addas i'r disgyblion feithrin medrau meddwl a'u medrau allweddol o fewn y pynciau.

Mae'r ysgol yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llwyddiant y cynllun trochi yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda iawn.

Caiff datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu hyrwyddo'n addas. Trefnir nifer o weithgareddau gan staff a disgyblion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd. Mae'r cyngor ysgol yn gweithredu'n briodol fel cymdeithas eco.

**Addysgu: Digonol**

Yn y rhan fwyaf o wersi ceir perthynas waith bositif rhwng y disgyblion, athrawon a'r staff cymorth. Yn y mwyafrif o wersi mae athrawon yn cynllunio'n drwyadl ac yn rhannu amcanion y gwersi gyda'r disgyblion yn glir. Maen nhw'n defnyddio cwestiynau agored yn grefftus i brofi syniadau ac annog y disgyblion i ymhelaethu ar eu hatebion. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau symbylus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac nid yw'r gwaith wedi ei addasu er mwyn cwrdd ag anghenion holl ystod gallu'r disgyblion. Nid yw'r cynllunio yn ddigon manwl ac mae athrawon yn dibynnu'n ormodol ar gwestiynau caeedig. Mewn ychydig iawn o wersi mae rheolaeth annigonol ar y dosbarth.

Mae llawer o athrawon yn marcio'n rheolaidd ac yn cynnig sylwadau defnyddiol ac ystyrlon i helpu'r disgyblion i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio yn amrywio yn ormodol rhwng adrannau ac oddi mewn iddynt. Mewn lleiafrif o lyfrau ceir marcio arwynebol a sylwadau nad ydynt yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o adrannau ceir enghreifftiau da o ddisgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a dysgu'n effeithiol oddi wrth ei gilydd. Fodd bynnag mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae adrannau yn casglu gwybodaeth am gyflawniad disgyblion ond nid oes system digon effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion ac adnabod gwahaniaethau mewn perfformiad unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae adroddiadau interim yn rhoi gwybodaeth gryno a defnyddiol i rieni ar gynnydd eu plant. Fodd bynnag, mae ansawdd, fformat a chynnwys yr adroddiadau diwedd blwyddyn yn amrywio'n ormodol. Ceir rhai enghreifftiau da o adroddiadau trylwyr yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr ond nid ydynt wastad yn rhoi darlun clir o gynnydd y disgyblion. Nid oes cyfle i'r disgyblion gyfrannu at gynnwys adroddiadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol gyfundrefn fugeiliol gref a hyrwydda iechyd a lles ei disgyblion yn effeithiol. Atgyfnerthir ymdrechion yr ysgol trwy gydweithio rhyngasiantaethol bwriadus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy i droi pan fod ganddynt broblem.

Mae’r ganolfan Hafan yn darparu cymorth a chynhaliaeth ychwanegol o ansawdd uchel i ddisgyblion bregus. Yn sgil hyn a’r gwaith bugeiliol bu gwelliant mewn lefelau presenoldeb grwpiau o ddisgyblion a lleihad sylweddol yn y gwaharddiadau. Mae amrediad ac ansawdd y gefnogaeth a’r gofal gan yr adran gynnal, ar gyfer unigolion a grwpiau sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn effeithiol iawn. Cynhelir nifer o glybiau cynhaliol, er enghraifft clybiau darllen, sillafu, rhif a hybu iaith. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da iawn ac maent yn cael llwyddiant ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Darperir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol addas, yn bennaf ar ddiwrnod ABCh bob hanner tymor. Rhoddir sylw cynhwysfawr i rai agweddau fel byw yn iach a gwneir defnydd da o asiantaethau a chwmniau allanol i gefnogi’r rhaglen. Fodd bynnag, mae’r dilyniant o ran cynnwys y rhaglen a phrofiadau’r dysgwyr ar draws y cyfnodau allweddol a chyfraniad y pynciau yn aneglur. Mae profiadau dysgu a’r rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol yn hyrwyddo datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Er bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn briodol, trwy wersi addysg grefyddol a dyddiau crefydd a moeseg, mae’r trefniadau ar gyfer cyd-addoli dyddiol yn annigonol ar rai adegau.

Mae disgyblion yn derbyn cyfweliad unigol i’w cynorthwyo gyda dewisiadau cwricwlaidd ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 12. Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth yn teimlo eu bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis opsiynau. Ychydig o ddisgyblion sy’n ymwybodol y gallant geisio cymorth gan anogwyr dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau addas ar gyfer diogelu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymdeithas gynhwysol sy’n hyrwyddo cyfle cyfartal yn effeithiol. Gosoda’r ysgol ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad gan herio achosion o fwlio, hiliaeth, neu homoffobia yn syth. Sicrha'r ysgol fod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu medrau academaidd a chymdeithasol yn llawn.

Symudodd yr ysgol i adeilad newydd yn 2001 ar safle eang gydag adeiladau o ansawdd uchel iawn. Mae arddangosfeydd lliwgar a diddorol o waith y disgyblion ym mhob man o’r ysgol. Mae digon o adnoddau ar gyfer dysgu yn gyffredinol, gydag adnoddau da iawn megis y ganolfan adnoddau a dwy neuadd. Mae ystafelloedd dosbarth yn fawr ac yn lleoedd pleserus i weithio a dysgu. Mae’r adran addysg gorfforol yn gwneud defnydd effeithiol o’r ganolfan hamdden sydd ar safle’r ysgol. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol fel un sy'n rhagori ym mhob maes. Cyfathrebir y weledigaeth hon yn frwdrydig i'r holl staff trwy gyfarfodydd a thrwy ddogfennaeth yr ysgol. Mae nodau, amcanion a pholisïau'r ysgol yn adlewyrchu'r awydd i sicrhau gwelliant. Mae arweinwyr wedi hyrwyddo gwelliannau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, megis cynnydd ym mhresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion ac ail-strwythuro'r cwricwlwm.

Mae'r uwch dîm rheoli yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn gefnogol i aelodau eraill o staff yr ysgol. Mae dosraniad cyfrifoldebau ar draws y tîm yn glir a phob un â chyfrifoldeb rheolwr llinell i nifer o adrannau. Mae eu cyfarfodydd gyda phenaethiaid adrannau yn dilyn agenda cytûn. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn amlder, manylder ac effeithiolrwydd y cyfarfodydd hyn. Yn ogystal, yn ystod y cyfarfodydd nid oes ffocws digonol ar y cynnydd mae disgyblion yn gwneud yn ystod gwersi.

Mae defnydd arweinwyr o ddata i fonitro perfformiad yn datblygu. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ar bob lefel yn ymwybodol o'r prif gryfderau'r a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r mwyafrif o arweinwyr yn cyflawni eu rôl yn effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at wella safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn effeithiolrwydd arweinwyr ar draws yr ysgol.

Mae polisi rheoli perfformiad yn bodoli ond nid yw'n cael ei weithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Nid yw lleiafrif o athrawon wedi cael eu harsylwi'n dysgu ac nid oes gan bob athro dargedau unigol.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae ei rôl fel ffrind beirniadol yn effeithiol ac yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at lywio cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae cysylltiadau buddiol rhwng llywodraethwyr a rhai adrannau ond nid oes cysondeb ar draws pob adran. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau'n effeithiol ond nid yw wedi sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol ynglyn â rheoli perfformiad, addoli ar y cyd a chynnwys yr adroddiad blynyddol i rieni.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio cryf gyda darparwyr eraill fel rhan o Lwybrau Dysgu 14-19.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn cael mewnbwn priodol i brosesau hunanarfarnu'r ysgol. Mae dealltwriaeth addawol gan staff o brosesau hunanarfarnu ond mae anhysondeb yn y ffordd mae'r prosesau hyn yn cael eu gweithredu ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ac yn cynnwys dadansoddiad priodol o ddata perfformiad. Fodd bynnag, canolbwyntia'r adroddiad ar gryfderau'r ysgol ac ychydig iawn o wybodaeth sydd ar y meysydd i'w gwella. Nid oes digon o ddefnydd o dystiolaeth uniongyrchol, o ran arsylwadau

gwersi a chraffu ar waith, wrth lunio barn. O ganlyniad nid yw sail y dystiolaeth sy'n ymddangos mewn mannau pwysig, megis addysgu, yn ddigon dibynadwy. Mae cysylltiad priodol rhwng y cynllun datblygu ysgol a'r adroddiad hunanarfarnu.

Mae llawer o reolwyr canol yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso'r meysydd o dan eu rheolaeth. Defnyddiant arsylwadau gwersi a chofnodion sy'n deillio o graffu ar waith disgyblion. Maen nhw'n cynhyrchu hunan arfarniadau manwl, gonest a chynhwysfawr sy'n arwain at gynlluniau datblygu adrannol defnyddiol. Fodd bynnag, mae manylder adroddiadau a chynlluniau adrannol yn amrywio ac nid yw lleiafrif yr adroddiadau adrannol yn adnabod y meysydd i'w gwella'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion datblygiad proffesiynol y staff trwy'r meysydd a adnabuwyd o fewn y cynlluniau datblygu adran ac yn darparu hyfforddiant addas i gwrdd â'u hanghenion. Mae athrawon yn cymryd rhan frwd mewn sawl gweithgor proffesiynol sy'n ymwneud â materion megis datblygu medrau, lles y disgyblion ac asesu ar gyfer dysgu. Mae dangosyddion cynnar yn awgrymu bod y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn chwarae rhan ganolog o fewn partneriaeth 'Trisgell' sydd wedi datblygu gydag ysgolion eraill a'r coleg lleol i ehangu'r cwricwlwm 14 – 19. Mae'r bartneriaeth hon wedi cryfhau'r cwricwlwm yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae trefniadau sicrhau ansawdd y cyrsiau cydweithredol yn datblygu'n dda.

Mae partneriaeth a chysylltiadau buddiol gyda rhieni a chymdeithas cyfeillion Penweddig ac mae cyfathrebu gyda rhieni yn briodol. Mae'r ysgol wedi cynyddu'r defnydd a wneir o wefan yr ysgol a neges destun fel modd i gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda rhieni. Ceir partneriaethau effeithiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym i fywyd ym Mlwyddyn 7. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o grwpiau a mudiadau cymdeithasol, megis Cadw Gymru'n Daclus, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc. Mae cysylltiadau'n datblygu'n addawol gyda busnesau lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae staff ategol yn rhan effeithiol o'r tîm ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi cydweithio'n fedrus gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â diffygion cyllidol. Erbyn hyn caiff gwariant ei gynllunio'n dda a'i fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, y prif swyddog gweinyddol a'r corff llywodraethol. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn effeithiol.

Mae'r deilliannau yn dystiolaeth fod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3 dros y pedair blynedd diwethaf mae'r dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) wedi cynyddu'n sylweddol. Ers 2010, mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn 2011 am y tro cyntaf mae ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim (meincnodau prydau ysgol am ddim).

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3 wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2011, am y tro cyntaf, mae perfformiad mewn Saesneg ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch wedi cynyddu ychydig iawn. Yn 2011 mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch yn well na chyfartaledd y teulu mewn Cymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg. Mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn ddigonol.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2008, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau A*-C TGAU) a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu. Ers 2010, ar gyfer y ddau dangosydd, mae'r ysgol wedi bod ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae data'r ysgol ar gyfer 2011, heb ei wirio, yn dangos bod perfformiad yn y trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi aros yn gyson a bod cynnydd o wyth pwynt canran yn y trothwy lefel 2. Ers 2009, mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd wedi bod sylweddol yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae canlyniadau'r trothwy lefel 1 (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau D-G TGAU) wedi amrywio ac mae data'r ysgol ar gyfer 2011, heb ei wirio, yn dangos bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi lleihau eto eleni ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ers 2008, mae'r sgôr bwyntiau gyfartalog (sy'n cwmpasu holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol yn 16) wedi cynyddu'n dda ac wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a ffigyrau cyfartalog Cymru.

Ers 2008, mae canlyniadau mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi cynyddu. Mae data'r ysgol ar gyfer 2011 (heb ei wirio) yn dangos bod perfformiad mewn Cymraeg a Saesneg wedi lleihau ychydig eleni.

Yn y chweched dosbarth mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 (sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch ar raddau A*-E) a'r sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach (sy'n cwmpasu holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol yn 18) yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd yr awdurdod lleol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, does dim un disgybl wedi gadael yr ysgol heb o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig ac mae bron pob un yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.  Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae holl ddisgyblion y chweched dosbarth wedi ennill achrediad yn y sgiliau hanfodol a sgiliau allweddol ar lefel 2 a lefel 3 fel rhan o gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 145 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur.

Mae'r sampl hon yn cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.  Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod ganddynt rywun i siarad gydag ef os ydynt yn poeni.  Mae'r canran sy'n teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio yn is na'r canran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.  Teimla llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach ac mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn nodi bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda ac mae llawer yn nodi bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Mae lleiafrif yn teimlo nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu.  Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda.

Mae llawer yn teimlo bod athrawon yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol a bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.  Fodd bynnag, tua hanner o'r disgyblion sy'n teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn a dim ond lleiafrif yng nghyfnod allweddol 4.  Mae'r canran sy'n teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn yn sylweddol yn is na'r canran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb.  Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith.  Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn teimlo eu bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.  Mae hyn yn is na'r ganran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 99 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a llawer yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg.  Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.  Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.  Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Nicola Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carwyn Davies | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |